# CABINET Y CYNGOR 20130122

**Yn bresennol** – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr - Siân Gwenllian, Peredur Jenkins, Brian Jones, John Wynn Jones, W.Gareth Roberts, Ioan Thomas, Paul Thomas, John Wyn Williams ac R H Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol** - Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio Polisi), Huw Williams (Pennaeth Gwasanaeth Ymgynghoriaeth), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet), Einir Davies (Swyddog Gweithredol i'r Arweinydd).

**Ymddiheuriadau : Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.**

## 1. CROESO

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:-

Eryl Crump, Daily Post

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. EITEM FRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN RHEOLI TRAETHLIN

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd W.Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd.

**PENDERFYNWYD**

Cytuno â'r polisïau sydd yn y Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru ar gyfer arfordir Gwynedd.

Mabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol unwaith y bydd Datganiad Resymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru

## 6. STRATEGAETH ARIANNOL DDRAFFT AR GYFER 2013/14 – 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNWYD**

Mabwysiadu'r canlynol fel safbwyntiau drafft i'w trafod eto ar 19 Chwefror cyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

1 Y dylid mabwysiadu cyllideb refeniw o £233.913m yn 2013/14 i'w rannu fesul gwasanaeth fel y nodir yn Atodiad 1 a fydd hefyd yn golygu dibynnu ar arbedion o £1.891m yn 2013/14.

2 Y dylid cyllido'r swm yma drwy'r grant o £181.633m y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a £52.28m o'r Dreth Gyngor fyddai'n golygu cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor.

3 Y dylid hefyd cymeradwyo bidiau unwaith ac am byth o £394,250 i'w ariannu allan o'r £268,050 arian grant cymell perfformiad a gedwir bob blwyddyn at ddibenion unwaith ac am byth gan ychwanegu £126,200 pellach o'r adnodd Dreth Gyngor a osodwyd o'r neilltu ar gyfer 2015/16.

4 O ran y sefyllfa dros y 4 blynedd nesaf, y dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £32m a daflunnir ar gyfer y 4 blynedd i ddod drwy gynllunio i gynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfartaledd o 3.5% y flwyddyn fydd yn darparu bron i £8m ar ben yr £8.7m o arbedion yr ydym wedi cynllunio ar eu cyfer yn barod.

5 Y dylid anelu wedyn i ddarganfod y gweddill drwy osod targed effeithlonrwydd pellach o £6.4m a cheisio gwyro galw am wasanaethau'r Cyngor drwy fod yn rhagweithiol i osgoi creu galw am y gwasanaethau hynny gyda golwg ar ddarganfod £5m pellach. Byddai unrhyw swm ar ôl i'w ddarganfod wedyn yn gorfod dod o doriadau.

6 Cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £20.839m ar gyfer 2013/14; £15.748m ar gyfer 2014/15 a £20.346 ar gyfer 2015/16 ar y cynlluniau a nodir yn Atodiad 3.

7 Cytuno i ddileu'r cynllun arbedion "Cefnogaeth i Aelodau" (£54,000) o'r cynlluniau arbedion yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 7. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL – DOGFEN HOFF STRATEGAETH

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd y Ddogfen Hoff Strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Penderfynwyd y byddai hawliau dirprwyedig yn cael eu rhoi i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio i wneud mân gywiriadau cyn rhyddhau'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 8. CYNLLUN GOSTWNG TRETH CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Cabinet Amddifadedd.

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd cefnogi argymhellion diwygiedig yr Aelod Cabinet, sef gofyn i'r Cyngor

llawn fabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) a'i gynigion parthed yr elfennau dewisol.

**9. Y MAES GWASTRAFF – MATERION YN CODI O'R ADOLYGIAD CYLLIDEB AIL CHWARTER**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr hyn argymhellir ar gyfer ymateb i'r gor a'r tanwariant a ragwelir yn y maes gwastraff, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

**10. SEFYLLFA GYLLIDOL YR YMGYNGHORIAETH**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd.

**PENDERFYNWYD**

1 Comisiynu gwaith gan y Pennaeth Cyllid i ymchwilio i drefniadau rheolaeth ariannol sydd gan Ymgynghoriaeth Gwynedd, tra ar yr un pryd yn sefydlu ar y cyd gyda Phennaeth Ymgynghoriaeth y dystiolaeth o beth yn union sydd wedi digwydd yn 2012/13 a beth yw'r sefyllfa debygol felly ar gyfer 2013/14.

2 Gofyn i'r Pennaeth Cyllid sicrhau fod ei adroddiad ar gael cyn diwedd y flwyddyn ariannol yma neu yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd er mwyn sicrhau bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn dechrau 2013/14 ar y droed iawn.

3 Yn sgil canlyniadau'r ymchwil yma, bod yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn arwain ail ddarn y gwaith o sefydlu model newydd fydd yn gynaladwy ac yn ymatebol i'r sefyllfa econonomaidd.

**11. CAFFAEL RHANBARTHOL AR GYFER YSGOLION Y C21AIN**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd John Wyn Jones, Aelod Cabinet Economi.

**PENDERFYNWYD**

1. Cytuno i weithredu'r Strategaeth Caffael ar gyfer Gwaith Adeiladwaith Gogledd Cymru, sef cefnogi sefydlu cytundeb fframwaith ar gyfer prosiectau adeiladwaith dros £4.35m ar gyfer rhaglen ysgolion 21ain ganrif, ac i gytuno i weithredu'r Strategaeth Caffael ar gyfer adeiladau eraill dros £4.35m ar yr amod bod:

- cymal yn cael ei gynnwys yn y Gwahoddiad i Dendro sydd yn nodi bod defnydd Cyngor Gwynedd o'r fframwaith i'w adolygu achos wrth achos.
- y Cyngor yn derbyn eglurder ar bwy fydd yn atebol pe bai sialens gyfreithiol yn codi.

2. Cytuno i'r cyfeiriad parthed gwella ymarferion caffael adeiladwaith cyfredol o dan £4.35m.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.30pm.

____________________________________

**CADEIRYDD**